
Gwybodaeth i Gleifion


# Cyngor ar Drin Cynnar ar gyfer Babanod y mae Amheuaeth bod ganddynt Barlys Plecsws Breichiol Obstetrig (Parlys Erb)

## Sut mae Anaf yn Digwydd?

Gall Parlys Plecsws Breichiol Obstetrig ddigwydd yn ystod genedigaeth anodd pan fydd y nerfau o'r gwddf i'r fraich yn cael eu hymestyn neu eu hanafu. *Gweler y **Taflenni Gwybodaeth i Gleifion Ffisiotherapi** am fwy o wybodaeth.*



**Plecsws Breichiol:**
nerfau o'r gwddf yn cyflenwi'r fraich



Weithiau ar ôl i'r pen gael ei eni, mae'r ysgwydd yn mynd yn sownd

Caiff babanod y mae amheuaeth bod ganddynt wendid yn eu braich eu hatgyfeirio ar gyfer asesiad Ffisiotherapi a byddant yn cael eu gweld o fewn 10 diwrnod gwaith i'r atgyfeiriad.

Fodd bynnag, mae '**Lleoli a Thrin Cynnar'** yn bwysig i ddiogelu'r nerfau sydd wedi'u hanafu yn y gwddf, er mwyn caniatáu i unrhyw lid a chwyddo o amgylch y nerfau wella. Dyma pam nad oes unrhyw ymarferion gweithredol yn cael eu dysgu ar gyfer y fraich wan am 5 diwrnod (neu 3 wythnos os oes toriad).

Mae gan y daflen hon gyngor pwysig i rieni a staff nyrsio yn ystod yr ychydig ddyddiau cyntaf, cyn y gall Ffisiotherapydd eu gweld.

## Lleoli a Thrin

- Dylai'r fraich gael ei chefnogi'n dda gyda'r llaw, y penelin a'r ysgwydd yn y safle niwtral bob amser
- Cefnogwch y fraich gyda thywel wedi'i rolio i fyny i gadw'r fraich honno mewn safle niwtral pan fydd y babi'n gorwedd ar ei gefn

- Dylech osgoi symud y pen a'r gwddf gormod i ddechrau, er mwyn osgoi tynnu ar y nerfau llidus
- Cadwch fraich eu babi'n agos at y corff wrth fwydo a dal
- Peidiwch â bod ofn trin a chyffwrdd braich y babi gyda gofal
- Peidiwch â thynnu ar y fraich sydd wedi'i heffeithio na chodi'r babi o dan y ceseiliau
- Wrth *wisgo* – ***dechreuwch*** gyda'r fraich sydd wedi'i ***heffeithio***
- Wrth *ddadwisgo* – ***dechreuwch*** gyda'r ***fraich sydd heb ei heffeithio***
- Wrth olchi, daliwch y fraich sydd wedi'i heffeithio yn agos at gorff y babi a sychwch yn ofalus o dan y fraich ac ym mhlygiadau'r croen.

**Teimlad**

Efallai fod gan y babi lai o deimlad yn ei fraich

Bydd cyffwrdd yn helpu i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'u braich; gallwch wneud hyn drwy:

- Ddal llaw y babi a mwytho a thylino'r fraich yn ysgafn
- Rhwbio amrywiaeth o weadau yn erbyn eu croen, ee, teganau melfed meddal i ddechrau, neu dywel sydd ychydig yn fwy garw
- Rhoi llaw'r babi ar y fron neu'r botel wrth fwydo
- Dod â dwylo'r babi at ei gilydd ac at ei wyneb, yn arbennig ei geg

D.S. Efallai na fydd rhai babanod yn goddef hyn i ddechrau, yn enwedig os ydynt yn dal i fod yn anniddig o'u genedigaeth.

**Mwy o Wybodaeth**

Bydd eich Ffisiotherapydd yn trafod y wybodaeth hon ymhellach gyda chi, ac yn eich cynghori sut i ddechrau ymarferion pan fydd eich babi'n barod.

Mae mwy o wybodaeth am Barlys Plecsws Breichiol hefyd ar gael yn:

www.erbspalsygroup.co.uk